



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 20 Mai 2022

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Kirsty Payne (KP) (Pennaeth Gweithrediadau)
Charlotte Thomas (CT) (Rheolwr Cyfathrebu)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JG)
Debbie Nash (DN)
Katie Phillips (KPh)
Michaela Renkes (MR)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o Groeso, cadarnhad o'r cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y sesiwn ac roedd yn hapus i gyhoeddi penodiad y tri chyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd: Debbie Nash (DN), Katie Phillips (KPh) a Yusuf Ibrahim (YI). Llwyddodd DN a KPh i ymuno â'r cyfarfod heddiw.

Bydd MR yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ar ran LIC nes bydd cynrychiolydd newydd wedi'i benodi.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w adrodd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd un gwelliant yn ddiweddarach yn y cyfarfod yn ymwneud ag Eitem 3 ar yr Agenda.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn hyn. Mae Cam Gweithredu 188 yn parhau a bydd Cam Gweithredu 203 yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr agenda.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Darparodd MP adroddiad cryno ar gyfarfod diwethaf y pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Roedd gwelliant wedi bod i ffigyrau'r gyllideb ers y cyfarfod hwn felly eglurodd KP hyn yn fanylach, gan ddarparu gwybodaeth gefndir am y gyllideb ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd hefyd.

Eglurodd KP sut roedd y sefydliad wedi gofyn am gyllid ychwanegol eleni gan gynyddu cyfanswm y gyllideb o'r dyfarniad grant dangosol o £1.25 miliwn o £1.6 miliwn. Roedd swyddogion LIC wedi cytuno ar hyn ond roedd yn aros am gymeradwyaeth y Gweinidog. Yn y cyfamser roedd yr Academi Arweinyddiaeth wedi cael cynnig cyllid ychwanegol o £40,000 i ymgymryd â phrosiect addysgeg.

Dangosodd KP gynllun y gyllideb i gydweithwyr newydd ac eglurodd sut mae arian yn cael ei ddyrannu i'r gwahanol ffrydiau gwaith. Bydd angen arian ychwanegol ar rai meysydd gwaith yn awr, gan y bydd gweithgareddau wyneb yn wyneb yn aildechrau. Bydd y gyllideb Hysbysebu a Marchnata'n cael ei chynyddu er mwyn talu am gostau fel arddangosfeydd yn yr Eisteddfodau eleni. Y bwriad yw cynnal 2 gyfarfod bwrdd wyneb yn wyneb bob blwyddyn gyda phob cyfarfod pwyllgor yn parhau ar-lein.

Bydd costau staff ychwanegol oherwydd bod 4 aelod staff parhaol yn cael eu cyflogi - 2 Bennaeth Adran, cynorthwydd cyfathrebu a swyddog cefnogi busnes. Bydd y grant addysgeg yn sicrhau y gall arweinydd ysgol gael secondiad am 1 diwrnod yr wythnos i arwain y prosiect hwn.

Holodd MJ ynghylch y penderfyniad i barhau i gynnal holl gyfarfodydd y pwyllgor ar-lein. Eglurodd KP na fyddai'n gost-effeithiol talu am gyfarfodydd pwyllgor wyneb yn wyneb gyda'r holl gostau teithio sy'n gysylltiedig â'r cyfarfodydd dwyawr hyn. Cyfeiriodd KP at y papur ar weithio hybrid a gyflwynwyd yng nghyfarfod y pwyllgor hwn yn nodi'r rhesymeg dros y penderfyniadau hyn. Roedd MR yn cefnogi hyn gan fod LIC yn parhau i annog sefydliadau i wneud defnydd o weithio ar-lein lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Roedd adolygiadau perfformiad wedi cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff ac nid oedd unrhyw broblemau mawr i'w hadrodd. Mae JG, fel cyfarwyddwr cyswllt ar gyfer lles, wedi bod yn cysylltu â'r holl aelodau staff.

Roedd TE wedi cyfeirio at y gwasanaeth monitro gwleidyddol newydd yr oedd y sefydliad wedi tanysgrifio iddo sy'n profi'n ddefnyddiol iawn wrth ddarparu gwybodaeth am faterion gwleidyddol sy'n berthnasol i'r sefydliad.

Roedd LIC wedi rhoi gwybod i'r sefydliad am gais Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r sefydliad. Cadarnhaodd MR y bydd y sianeli arferol yn LIC yn ymdrin â'r cais hwn.

Roedd y strwythur staffio newydd wedi cael ei drafod a'r cynnig hefyd i newid teitlau swyddi o 'Cyfarwyddwr Cynorthwyol' i 'Cyfarwyddwr'. Cadarnhaodd KP mai newid yn nheiti swyddi yn unig oedd hyn ac na fyddai gan y cyfarwyddwyr staff newydd yr un lefel o gyfrifoldeb â chyfarwyddwyr y Bwrdd. Roedd pawb yn hapus i dderbyn y newid hwn.

Derbyniodd y Bwrdd y gyllideb ddiwygiedig a chofnodion yr is-bwyllgor hwn yn ffurfiol. Diolchodd SD i MP a KP am eu hadroddiadau cynhwysfawr.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Roedd y gofrestr risg wedi cael ei thrafod yn fanwl ac roedd nifer o newidiadau wedi'u nodi. Braff oedd gweld bod y gofrestr yn cael ei defnyddio fel adnodd rhyngweithiol i adlewyrchu'n gywir ddarlun newidiol y lefelau risg.

Cyfeiriodd MJ at y risgiau cynhenid y tu ôl i brofion PISA a oedd wedi bod yn destun rhywfaint o drafod yn y pwyllgor. Eglurodd MJ y mater hwn er budd aelodau newydd y Bwrdd. Gan nad oedd PISA yn y llythyr cylch gwaith, ni all y sefydliad ddylanwadu'n uniongyrchol.

Cynhaliwyd ail archwiliad dwfn i'r broses gymeradwyo ac roedd hi'n galonogol iawn nodi bod argymhellion yr archwiliad dwfn cyntaf wedi'u hymgorffori yn y broses erbyn hyn. Mae llwybr carlam i gymeradwyaeth drwy gydnabod achrediad a sicrwydd gan gyrff eraill sy'n cael eu rheoleiddio ar y gweill ar gyfer tymor yr hydref ac mae hyn yn rhywbeth y byddai MJ yn ei groesawu. Roedd trafodaethau gyda LIC wedi'u cynnal ynghylch cyfraniad yr Academi Arweinyddiaeth at y gwaith o roi nod barcut ar bob darpariaeth ddatblygu.

Holodd MR ynghylch y rhesymeg y tu ôl i ehangu cylch gwaith cymeradwyaeth y tu hwnt i arweinyddiaeth. Cafwyd trafodaeth wedyn i egluro'r sefyllfa ac esboniodd TE fod hyn yn ymwneud mwy ag ystyried lefelau gwahanol o arweinyddiaeth. Y teimlad oedd y gallai geiriad cofnodion y pwyllgor fod braidd yn gamarweiniol yma felly bydd TE yn darparu rhai brawddegau diwygiedig er mwyn diwygio'r rhan hon.

Bydd yna newid i'r rheolwr archwilio mewnol. Mae'r sefydliad wedi cael perthynas weithio gynhyrchiol iawn gyda'r rheolwr presennol a oedd â dealltwriaeth dda iawn o'r ffordd y mae archwiliadau mewnol ac allanol yn cydweithio. Y gobaith yw parhau â'r ffordd gadarnhaol hon o gydweithio â'r rheolwr archwilio newydd.

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad a oedd wedi ysgogi trafodaeth ddiddorol.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Croesawodd TE y cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd ac mae'n edrych ymlaen at gydweithio â nhw. Rhoddodd TE drosolwg byr o'r cylch gwaith a gofynnodd i gyfarwyddwyr ystyried cynnig eu hunain fel cyfarwyddwr arweiniol i gefnogi gyda

meysydd ffrwd waith amrywiol. Os hoffai cyfarwyddwyr dderbyn hysbysiadau'r Academi Arweinyddiaeth drwy'r post, gofynnwyd iddynt roi eu cyfeiriad i KP.

Yna aeth TE drwy ei hadroddiad gan ystyried pob rhaglen waith yn ei thro:

Para 1.1 Sicrwydd Ansawdd - mae'r ddau gais am gymeradwyaeth wedi bod yn llwyddiannus. Mae E-brosbectws o'r holl ddarpariaeth a ardystiwyd wedi'i lansio ar-lein yn ddiweddar a bydd copi caled ohono ar gael mewn digwyddiadau. Mae ystyriaeth yn cael ei roi ar hyn o bryd i gyflymu'r broses gymeradwyo. Roedd TE yn croesawu'r gwaith o graffu ar archwiliadau dwfn yn y pwyllgor AARAC.

Cyfeiriodd PM at lefelau presenoldeb isel braidd yn y digwyddiad ar-lein. Roedd TE wedi cael ei siomi braidd ar y cychwyn gyda'r nifer isel a ymunodd ond bu ymgysylltu da gan y rhai a fynychodd ac roedd y digwyddiad wedi profi'n werth chweil. Tynnodd MR sylw at yr holl wybodaeth a chysiau sydd ar y farchnad a'r ffaith bod arweinwyr ysgolion yn parhau i fod dan lawer o bwysau ar hyn o bryd.

Para 1.2 Arloesi – bwriedir cynnal digwyddiad dathlu ym mis Mehefin. Roedd lefel yr ymgysylltu gyda Chyfras 3 yn gyfyngedig a allai fod oherwydd yr amseru neu'r pwysau sy'n wynebu ysgolion ar hyn o bryd.

Para 1.3 Arweinyddiaeth System – mae llawer yn digwydd ar hyn o bryd gyda'r Cymdeithion. Cafodd Cohort 3 a 4 gyfarfod wyneb yn wyneb ynglŷn â'u comisiynau: Mae Cohort 3 yn canolbwyntio ar ADY tra bod Cohort 4 yn gweithio ar ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae Cohort 2 yn parhau â'u gwaith ar y canlyniadau a'r argymhellion o'u comisiwn. Cynhaliwyd cynhadledd arweinyddiaeth ganol lwyddiannus a oedd yn archwilio rolau pwysig arweinwyr canol. Heddiw yw'r dyddiad cau ar gyfer recriwtio Cohort 5 ac roedd TE yn obeithiol o recriwtio ymgeiswyr o'r sectorau gwaith ieuenctid ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Para 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – Mae digwyddiad sy'n canolbwyntio ar Arwain y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei drefnu ar gyfer mis Gorffennaf a fydd yn cynnig cyfle i ymarferwyr fyfyrion a phwyso a mesur. Gobeithio y bydd y digwyddiad yn gallu mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan arweinwyr ysgolion ynghylch agweddau fel gweledigaeth glwstwr. Tynnodd MR sylw at y ffaith bod LIC yn llunio canllawiau ar gynnydd a Chwricwlwm Cymru ar hyn o bryd a bydd yn rhoi gwybod i TE pan fyddant ar gael.

Para 2.1 Adnoddau – lansiodd yr adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol (LPL) ddiwedd mis Mawrth. Mae TE a'r Athro Ken Jones yn cyd-gyflwyno yng Nghynhadledd Belmas yn Lerpwl ddechrau mis Gorffennaf a fydd yn gyfle defnyddiol iawn i rannu gwaith y tu hwnt i ffiniau am yr adnodd LPL. Mae'r grŵp arweinyddiaeth consortia yn bwriadu ymgorffori'r prif ddilysnodau dysgu proffesiynol yn eu holl raglenni datblygu. Mae yna gyfarfodydd ymgysylltu wedi'u cynllunio hefyd gydag awdurdodau lleol a'r rhanbarthau.

Para 2.2 Cyfres Mewnwelediad – Lansiodd papur Arweinyddiaeth Dosturiol Dr Ali Davies: 'More than a Sticking Plaster' ac ar hyn o bryd mae ar frig y rhestr o adnoddau sy'n cael eu lawrlwytho. Mae hyn yn sylfaen ardderchog ar gyfer datblygu gwaith yn y maes hwn.

2.3 Llesiant – Mae'r papur llesiant wedi'i dderbyn bellach ac mae llyfrgell o adnoddau yn cael ei ffurfio i gefnogi'r papur, yn cynnwys podlediadau gyda Dr Ali Davies. Yn sicr, mae ei angen ar hyn o bryd fel y daeth i'r amlwg mewn gweithdy diweddar lle'r oedd penaethiaid yn gorfod ysgwyddo baich pryderon ynghylch arolygiadau, llwyth gwaith, y cwricwlwm newydd ac ati. Bydd archwiliad o lesiant a darpariaeth arweinyddiaeth dosturiol yn cael ei gynnal yn yr hydref.

2.4 Cynllunio Strategol y Gweithlu – mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda 6 awdurdod lleol ac mae pob un yn awyddus i ymgysylltu.

3.1 O safbwynt corfforaethol, mae llywodraethu effeithiol bellach ar waith yn dilyn penodi'r 3 chyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd. Mae hyfforddiant Cyber Essentials yn parhau.

3.2 Swyddogaeth Weithredol - penodwyd swyddog gweithredol marchnata a chyfryngau digidol newydd a fydd yn dechrau ar 13 Mehefin. Mae'r rhestr fer wedi'i llunio ar gyfer y rôl pennaeth polisi ac ymchwil a chynhelir cyfweiliadau wythnos nesaf. Ni wnaeth unrhyw ymgeisydd gyrraedd y rhestr fer ar gyfer y rôl pennaeth sicrwydd ansawdd a datblygu arweinyddiaeth felly bydd y rôl yn cael ei hail-hysbysebu ym mis Mehefin. Bydd y rôl weinyddol yn cael ei hysbysebu ddiwedd Mehefin a chynhelir y cyfweiliadau yn ystod mis Gorffennaf.

Mae papur wedi'i ddrafftio sy'n egluro'r dull hybrid o weithio y mae'r sefydliad yn bwriadu ei fabwysiadu. Awgrymodd TE y dylai'r Bwrdd adolygu hwn ymhen 6 mis.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynglŷn â pha wybodaeth fyddai fwyaf defnyddiol i'r Bwrdd a chytunwyd y byddai'n well ystyried hyn ar lefel is-bwyllgor.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – Bydd CT yn cyflwyno ei hadroddiad blynyddol dan Eitem 5 yr Agenda.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – Mae'r sefydliad yn cael ei wahodd i fwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb erbyn hyn, a fydd yn hwyluso ymgysylltu ehangach. Roedd TE yn cydnabod mai dyma'r llif gwaith a oedd wedi dioddef fwyaf dan gyfyngiadau Covid. Mae cytundebau partneriaeth yn cael eu drafftio ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan KP.

Diolchodd SD i TE am adroddiad addysgiadol ac ysbrydoledig iawn sy'n tynnu sylw at yr holl bwyntiau allweddol. Dywedodd SD y bydd y ffordd hybrid o weithio yn newid o bwys.

Dywedodd MR wrth y Bwrdd fod 50% o ysgolion uwchradd Cymru wedi penderfynu mabwysiadu'r cwricwlwm newydd ond gallai rhai ohirio ei fabwysiadu am 12 mis.

5. Adroddiad Cyfathrebu Blynyddol 2021-22

Cyflwynodd CT ei hadroddiad cyfathrebu a marchnata blynyddol gan ddechrau drwy egluro rhai o'r termau technegol: ymweliadau â thudalennau, cyfradd bownsio ac ati.

Lansiwyd y wefan newydd ym mis Mai 2021 a chafwyd 100,000 a mwy o ymweliadau â'r dudalen gyda chyfradd bownsio eithriadol sy'n fwy na meincnod y diwydiant. Roedd yn dda gweld llawer yn dychwelyd i'r wefan yn ogystal â defnyddwyr newydd. Mae yna amrywiadau naturiol yn nifer yr ymweliadau gyda chyfnodau tawel yn ystod gwyliau ysgol a'r cyfnodau prysuraf pan fydd dogfennau newydd yn cael eu cyhoeddi.

Aeth CT drwy'r holl sianeli cyfryngau cymdeithasol gan gadarnhau mai Twitter oedd y sianel fwyaf poblogaidd a sefydledig o hyd gyda nifer dilynwyr dros 2000 erbyn hyn. Facebook oedd y sianel fwyaf poblogaidd ond un ac mae'r defnydd o LinkedIn yn cynyddu o fis i fis. Lansiwyd Instagram ym mis Ebrill 2021 ac mae cynnydd araf yn nifer y dilynwyr ond mae hyn yn cynyddu gyda mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Tynnir sylw at Youtube a Vimeo er mwyn anfon traffig at y safleoedd hyn. Y fideo mwyaf poblogaidd yw System Leadership gan yr Athro Alma Harris.

Mae Mailchimp, y cylchlythyr misol sy'n hyrwyddo digwyddiadau, wedi dod yn fwy poblogaidd a bu'n rhaid cynyddu'r pecyn i ddarparu ar gyfer defnyddwyr newydd. Nododd CT fod gwaith partneriaeth a llesiant yn bynciau poblogaidd iawn i danysgrifwyr ar draws pob platfform cyfryngau cymdeithasol.

Diolchodd MJ i CT am gyflwyniad da iawn a holodd a oedd unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch demograffeg defnyddwyr. Cadarnhaodd CT fod Google Analytics yn darparu gwybodaeth ddaearyddol ar ddefnyddwyr er y gallai hyn fod yn gamarweiniol weithiau. Gall Mailchimp nodi proffiliau gyrfa a chadarnhaodd CT fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn Benaethiaid.

Roedd PM yn falch o weld cymaint o wybodaeth am ddefnyddwyr ond roedd am wybod sut y gallem fel Bwrdd fesur yr hyn a gyflawnwyd. Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynglŷn â pha wybodaeth a fyddai fwyaf defnyddiol i'r Bwrdd a chytunwyd y gellid ystyried hyn orau ar lefel is-bwyllgor.

Diolchodd SD i CT am adroddiad gwirioneddol gynhwysfawr a chytunodd y gallai meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg eraill roi mwy o oleuni ar y sefyllfa.

6. Ailgyfansoddi Is-bwyllgorau

Roedd SD wedi penderfynu osgoi cael cyfarwyddwyr yn gorgyffwrdd ar lefel is-bwyllgorau ond i gadw'r rolau ar wahân gyda 3 chyfarwyddwr ar un pwyllgor a 4 ar y llall. Byddai cyfarwyddwyr newydd yn cael eu gwahodd i fynegi eu dewisiadau ar gyfer pwyllgor a gallai cyfarwyddwyr presennol newid pwyllgor hefyd os oeddent yn dymuno hynny. Roedd angen is-gadeirydd newydd yn lle Rosemary Jones hefyd.

Fe wnaeth SD wahodd DN i gyflwyno ei hun a rhoi cipolwg byr o'i chefnidir a'i phrofiad. Roedd DN yn falch iawn o ymuno â'r Bwrdd ac yn teimlo ei bod eisoes wedi dysgu llawer am y sefydliad. Mae gan DN ddiddordeb cryf mewn mentora ac mewn addysg brif ffrwd hefyd. Byddai cylch gwaith y pwyllgor archwilio a risg yn cyd-fynd yn agosach â rolau presennol DN ac fe gadarnhaodd MJ fel Cadeirydd y byddai'n hapus iawn i DN ymuno â'r pwyllgor hwnnw. Cadarnhaodd PM y byddai'n well ganddo aros ar y pwyllgor archwilio a risg.

Cadarnhaodd SD fod YI a KPh wedi cynnig ymuno â'r pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol. Byddai SD yn sefydlu hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd a'r pwyllgor ac aelodau presennol. Byddai croeso hefyd i hyfforddiant yn y dyfodol ar ADY a'r haen ganol. Atgoffodd MR y Bwrdd nad oedd rôl yr is-gadeirydd yn un swyddogol o fewn y strwythur ond cytunodd y Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol i'w gael.

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Eitemau'r Agenda yn y dyfodol a Chau'r Cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw. Daeth SD â'r cyfarfod i ben am 12.35pm.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd wyneb yn wyneb a byddai KP yn cadarnhau'r dyddiad a'r lleoliad pan gaiff ei drefnu.

Log Gweithredu

Rhif		Perchennog	Erbyn Pryd	Statws
188	Ystyried cydweithio ar lesiant	NM	Ar y gweill	
204	Darparu geiriad diwygiedig ar gyfer cyfarfod pwyllgor AARAC	TE	Mai 2022	Wedi'i gwblhau
205	Gwirfoddolwr i fod yn brif gyfarwyddwr ar gyfer ffrydiau gwaith/meysydd cylch gwaith	Pawb	Gorffennaf 2022	
206	Cysylltwch â KP ar gyfer hysbysiadau gwybodaeth Academi	Pawb	Mai 2022	
207	Darparu awgrym o ddyddiadau i MR ar gyfer hyfforddiant	SD	Mehefin 2022	